# Dogfen Gofnodi Cyfarfod | Ysbyty Maesteg / Canolfan Iechyd a Lles Cwm Llynfi

***29 Ionawr 2026***

## Presenoldeb

- Cynrychiolwyr Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM):
  - *Jonathan Morgan, Cadeirydd*
  - *Paul Mears, Prif Weithredwr*
  - *Claire Thompson, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid*
  - *Dale Stolzenberg, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid*
  - *Dr Sarah Medlicott, Aelod Cyswllt o'r Bwrdd*
  - *Paul Deenik, Aelod Cyswllt o'r Bwrdd*
- Cynrychiolwyr Etholedig Lleol:
  - *Huw Irranca-Davies AS*
  - *Y Cyng. Paul Davies*
  - *Y Cyng. Chris Davies*
  - *Y Cyng. Malcolm James*
  - *Y Cyng. Martin Hughes*
  - *Y Cyng. Philip Jenkins*
  - *Y Cyng. Ross Thomas (hefyd yn gwasanaethu fel Cadeirydd Cynghrair Cyfeillion Ysbyty Maesteg)*
  - *Y Cyng. Richard Collins*
- Cynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:
  - *Y Cyng. Jane Gebbie, Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant*
  - *Y Cyng. Neelo Farr, Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai*
  - *Claire Marchant, Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant*

### Yr hyn a drafodwyd

Amlinellodd BIP CTM y sefyllfa bresennol ynghylch darparu gwasanaethau iechyd a lles yng Nghwm Llynfi, Ysbyty Cymunedol Maesteg a datblygu canolfan iechyd a lles.

Roedd pawb yn cydnabod mai eu hawydd cyffredin yw mynd i'r afael â'r canlyniadau iechyd gwaeth a disgwyliad oes iach gwaeth i bobl yng Nghwm Llynfi, ac y byddai hynny yn flaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfodol gwasanaethau yn Ysbyty Maesteg.

Cadarnhaodd BIP CTM nad oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud i gau na gwerthu Ysbyty Cymunedol Maesteg.

Mae BIP CTM wedi ymrwymo i ymgysylltu’n barhaus â’r gymuned, gyda chefnogaeth Llais (hyrwyddwr llais y claf yng Nghymru) a sefydliadau Trydydd Sector eraill.  Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhannu dros yr wythnosau nesaf.

Dywedodd BIP CTM mai ei nod yw darparu mwy o wasanaethau i fwy o bobl yng Nghwm Llynfi.

Bu trafodaeth hir ynghylch darpariaeth gwelyau cymunedol, ac mae mwy o fanylion am hynny isod.

Cytunodd cynrychiolwyr etholedig lleol a BIP CTM i gyfarfod yn rheolaidd.

***Ymhlith y brif wybodaeth a roddwyd gan BIP CTM oedd:***

- Mae BIP CTM yn sicrhau bod gwaith cynnal a chadw o ddydd i ddydd yn digwydd yn Ysbyty Cymunedol Maesteg, ond nid oes ganddo fynediad at y miliynau o bunnoedd sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw o fewn yr adeilad sydd wedi pentyrru dros amser.
- Targedodd BIP CTM arian y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF) genedlaethol i ddatblygu canolfan Iechyd a Llesiant i Gwm Llynfi, gyda'r bwriad o wneud hynny ar safle Ysbyty Cymunedol Maesteg. Mae cyfyngiad amser ar gyllid IRCF ac mae angen i BIP CTM gyflwyno ei achos busnes ffurfiol cyntaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf (erbyn 31 Mawrth 2027)
- Mae BIP CTM wedi ymgymryd ag ymgysylltiad cymunedol parhaus a helaeth (gan gynnwys cynnig sefydlog i gyfarfod â grwpiau cymunedol lleol gyda gwahanol grwpiau yn manteisio ar y cynnig hwnnw), ac mae wedi penodi partneriaid allanol yn dilyn y broses briodol drwy Fframwaith Cynllun Oes: Adeiladu ar gyfer Cymru trwy Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda datblygu'r achosion busnes angenrheidiol.
- Cyfanswm cost targed prosiect BIP CTM yw tua £30M (yn amodol ar gymeradwyaeth achosion busnes gan Lywodraeth Cymru)
- Ar hyn o bryd, mae Ysbyty Maesteg yn cynnig gwasanaethau cyfyngedig ac nid yw'n addas ar gyfer gwasanaethau eraill oherwydd cyflwr a chyfluniad gwael yr adeilad.
- Mae BIP CTM eisiau darparu mwy o wasanaethau i fwy o bobl mewn Canolfan Iechyd a Llesiant i Gwm Llynfi, gan adeiladu ar beth sy’n cael ei gynnig ar hyn o bryd yn Ysbyty Maesteg, ac ar ôl clywed gan bobl leol mae'n bwriadu cynnwys y canlynol yn yr achos busnes:
  - Gofal Brys (Mân Anafiadau ac Anhwylderau)
  - Pelydr-X ac Uwchsain
  - Ystod ehangach o Wasanaethau Cleifion Allanol gydag ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau iechyd plant a menywod (gan gynnwys gwasanaethau offthalmoleg ar gyfer glawcoma a chyflyrau llygaid eraill)
  - Darpariaeth meddygon teulu
  - Gwasanaethau iechyd meddwl
  - Nyrsys Ardal, Ymwelwyr Iechyd, a thimau allgymorth eraill
  - Gwasanaethau ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol ar gyfer oedolion, plant a theuluoedd
- Ni fyddai achos busnes BIP CTM yn cynnwys gwelyau cymunedol am y rhesymau sydd eisoes wedi eu gwneud yn gyhoeddus: Symud i ddarpariaeth yn y cartref, gyda thimau amlddisgyblaethol yn cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain, a’r gost uchel iawn i adeiladu ward newydd a gwasanaethau cysylltiedig
- Cefnogir y dull yn y cartref gan dystiolaeth ryngwladol sy'n dangos y gall derbyn pobl hŷn fregus i'r ysbyty arwain at ddirywiad yn eu gallu corfforol a gwybyddol. I'r rhai dros 80 oed, gall 10 diwrnod o orffwys yn y gwely yn yr ysbyty achosi heneiddio cyhyrau sy'n cyfateb i 10 mlynedd.
- Mae BIP CTM yn anelu at sicrhau gwelyau gofal canolraddol mewn cartrefi gofal lleol i ganiatáu i bobl leol gael gofal yn agosach at adref, gyda chefnogaeth staff BIP CTM, pan nad yw darpariaeth gartref yn addas, gan gynnwys gofal seibiant, gofal lliniarol a gofal ail-alluogi o bosibl.
  - *Nododd BIP CTM fod gwely ysbyty yn costio tua £500 y noson a gwely mewn cartref gofal nyrsio tua £1,000 yr wythnos*

## Safle Ysbyty Cymunedol Maesteg ar hyn o bryd

- Cwblhaodd partneriaid BIP CTM astudiaethau dichonoldeb ar ystod o opsiynau a meintiau adeiladau, ond bydd darparu'r gwasanaethau a nodwyd yn costio o leiaf dros £40M – mae'r rhain yn fwy na chostau adeiladu yn unig, ond costau offer, ffioedd, costau anuniongyrchol eraill a TAW.
- Mae safonau adeiladu penodol y mae'n rhaid eu bodloni ar gyfer gofal iechyd modern, gan gynnwys manylebau ynghylch meintiau ystafelloedd, rheoli heintiau, lloriau ac ati.
- Caiff y costau hyn eu hasesu'n annibynnol gan Gynghorwyr Costau a benodwyd gan BIP CTM, sy'n gweithio ar gynlluniau tebyg ledled y DU, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu costau presennol y farchnad.
- Ni fydd yr IRCF yn talu i gwblhau’r gwaith cynnal a chadw sydd wedi pentyrru dros amser a dychwelyd yr adeilad i’w gyflwr gwreiddiol. Mae angen i'r adeilad fod yn briodol i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau mewn canolfan iechyd a lles yn y dyfodol, gan gynnwys canolbwyntio ar iechyd cyffredinol y boblogaeth a gofal cymdeithasol ac atal afiechyd, gwasanaethau meddyg teulu parhaol, gwasanaethau iechyd Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector ac ati.
- Ystyriodd BIP CTM a phartneriaid allanol wahanol ffyrdd o leihau'r costau, gan gynnwys cyflwyno'r rhaglen adeiladu fesul cam ac adeiladu ar safle arall, ond arhosodd y costau'n debyg iawn.

## Safle Newydd Posibl yn Heol Ewenni

- Ni allai BIP CTM wynebu colli'r potensial i wario £30M mewn cymuned sydd gyda heriau iechyd sylweddol.
- Roedd angen i BIP CTM Cwm Llynfi ystyried safleoedd eraill a allai sicrhau effeithiau cadarnhaol pendant ar iechyd a lles pobl yng Nghwm Llynfi, gan gynnwys adeiladu cyfleuster newydd yn Heol Ewenni, Maesteg.
- Mae gwaith dichonoldeb cynnar yn awgrymu y gallai adeilad newydd, gyda'r gwasanaethau a nodwyd uchod, gael ei adeiladu o fewn, neu'n agos at, y gyllideb sydd ar gael.
- Os dewisir y safle newydd, byddai hefyd yn golygu y byddai Ysbyty Cymunedol Maesteg yn aros ar agor ac yn darparu gwasanaethau'n lleol nes bod yr adeilad newydd yn agor.
- Mae gwaith dichonoldeb mwy manwl yn cael ei wneud yn rhan o ddatblygu achos busnes, a bydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.
- Nid oes unrhyw gyllid ar gael i gadw Ysbyty Maesteg ar agor yn ei ffurf bresennol ac adeiladu canolfan iechyd a lles newydd.

## Materion a Godwyd gan Gynrychiolwyr Lleol

- Bu trafodaeth hir am ddarpariaeth gwelyau cymunedol, symud i ddarpariaeth yn y cartref wedi'i gefnogi gan dystiolaeth, gan gynnwys cydnabod effaith gorfforol a gwybyddol gorffwys am gyfnod estynedig mewn gwely yn yr ysbyty i'r rhai dros 80 oed, a'r angen am ddull cydweithredol o ddarparu gwelyau i bobl hŷn rhwng BIP CTM, yr Awdurdod Lleol a phartneriaid eraill. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth yn y cartref a lleoliadau mewn cartrefi gofal.
- Cydnabyddiaeth o'r heriau iechyd presennol yng Nghwm Llynfi o'u cymharu â gweddill y rhanbarth, gan gynnwys cyfraddau uwch o gyflyrau cronig a heriau iechyd meddwl ar draws pob oedran. Trafodaeth eang ynghylch yr ystod o wasanaethau y mae BIP CTM (a'r Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector) yn bwriadu eu darparu yng Nghanolfan Iechyd a Llesiant Cwm Llynfi, gan gynnwys tu allan i oriau.
- Cymerodd BIP CTM i ystyriaeth y pryderon a godwyd ynghylch y dulliau a ddefnyddir gan BIP CTM wrth ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned. Cytunodd BIP CTM i fod yn fwy rhagweithiol, gyda digwyddiadau wyneb yn wyneb yn cael eu cefnogi gan Llais a sefydliadau priodol eraill. Bydd angen i hyn gynnwys pawb yn y gymuned, gan gynnwys pobl iau, teuluoedd a phlant, gan fod cynrychiolwyr wedi nodi mai dyma'r grwpiau sydd fwyaf anodd eu cynnwys yn y drafodaeth yn aml, er byddan nhw'n elwa o ragor o wasanaethau yng Nghwm Llynfi.
- Trafodaeth ynghylch darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus leol a gallu pobl i gael mynediad at wasanaethau lle bynnag y maen nhw wedi'u lleoli.
- Trafodaeth ynghylch yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r broses achos busnes ar gyfer Canolfan Iechyd a Llesiant Cwm Llynfi. Bydd cymhariaeth 'debyg am debyg' o'r opsiynau sydd ar gael i ni ar gael erbyn Pasg 2026, a bydd mwy o ymgysylltu manwl ynghylch yr opsiynau hyn yn digwydd wedi hynny (gan osgoi cyfnod etholiad y Senedd)
- Gan ddibynnu ar yr opsiwn a ddewisir ar ôl ymgysylltu, gwnaeth BIP CTM yn glir y byddai'n gwneud popeth posibl i fod yn glir ynghylch dyfodol y safle presennol, mewn trafodaeth â'r gymuned, cynrychiolwyr etholedig lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a phartneriaid eraill, cyn cyflwyno'r Achos Busnes Terfynol.

## Camau Nesaf

1. Bydd BIP CTM a'r Awdurdod Lleol yn darparu rhagor o wybodaeth gyhoeddus am 'Ysbyty yn y Cartref' a darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yr Awdurdod Lleol ar gyfer pobl hŷn a'r dystiolaeth sy'n sail iddi, gan gynnwys darpariaeth cartrefi gofal lleol, fel bod y gymuned yn cael gwybod yn llawn ac i gefnogi ymgysylltiad cymunedol (~~bydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn dilyn cyfarfod â chynrychiolwyr etholedig lleol ym mis Mawrth~~).
2. Bydd BIP CTM yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch ei gynllun ar gyfer ymgysylltu cymunedol ehangach ar yr opsiynau sydd ar gael i ddarparu Canolfan Iechyd a Llesiant Cwm Llynfi (dim hwyrach na diwedd Chwefror 2026)
3. Bydd BIP CTM yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr etholedig lleol i drafod datblygu Canolfan Iechyd a Llesiant Cwm Llynfi a materion iechyd a llesiant ehangach (y cyfarfod nesaf ddechrau mis Mawrth 2026)